Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council

DATGANIAD I'R WASG – PRESS RELEASE

Mae tri bachgen wedi derbyn rhybudd ffurfiol oddiwrth yr heddlu am eu hymddygiad yn dilyn nifer o achosion o ddifrod troseddol ym Mharc Caerfyrddin.

Mae'r tri bachgen - sydd yn mynychu ysgolion yng Nghaerfyrddin, ond na ellir eu henwi oherwydd rhesymau cyfreithiol – i gyd wedi ysgrifennu llythyrau personol at y Cyngor Dref yn ymddiheuro am eu hymddygiad.

Dywedodd Maer Caerfyrddin, y Cyng. Gareth John: "Gobeithio y bydd hyn yn dod â diwedd i ymddygiad gwael lleiafrif o bobl ifanc sydd yn anffodus wedi difetha profiad amryw o bobl o ddefnyddio Parc Caerfyrddin yn ystod yr haf. Hoffwn ddiolch i'r tîm plismona lleol am gymryd y camau hyn a gobeithio bydd hyn yn atal plant a phobl ifanc rhag cyflawni troseddau yng Nghaerfyrddin, ac yn eu dysgu i barchu teuluoedd eraill sy'n defnyddio'r Parc".

Mae'r Cyngor Tref wedi gwario dros £150,000 eleni ar uwchraddio'r ardaloedd chwarae ac ar wneud gwelliannau eraill i Barc Caerfyrddin.

Alun J Harries

Clerk, Carmarthen Town Council

20th October 2020